| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6 Mawrth 2014** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**<br>**Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ar ddefnyddio Kingdom Security Ltd ar gyfer gorfodaeth troseddau amgylcheddol** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Bwriad yr adroddiad yw darparu'r Aelodau â diweddariad cynhwysfawr ar weithgareddau gorfodaeth troseddau amgylcheddol Kingdom Security Ltd, sut maent yn cael eu rheoli gan y Gwasanaeth, sut mae'r gwasanaeth wedi datblygu dros y 12 mis diwethaf, a'r costau cysylltiedig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Bwriad yr adroddiad yw rhoi diweddariad i'r Aelodau ar weithgareddau gorfodaeth troseddau amgylcheddol Kingdom Security Ltd ar draws y Sir.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cefnogi'r dull gweithredu parhaus a phartneriaeth gyda Kingdom Security Ltd ar gyfer gorfodaeth troseddau amgylcheddol.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Ym mis Hydref 2012, penododd y Cyngor Kingdom Security Ltd (X-for gynt) i ymgymryd â gorfodaeth troseddau amgylcheddol ar draws y Sir.

4.2 Mae Kingdom yn darparu 1 Arweinydd Tîm a 5 swyddog gorfodaeth. Maent wedi eu lleoli yn Tŷ Russell, Y Rhyl, er eu bod yn gweithio ar draws y Sir. Uwch Swyddog Gorfodaeth Diogelwch Cymunedol y Cyngor (Tim Wynne-Evans) sy'n goruchwylio'r gwaith sy'n cael ei wneud.

4.3 Mae'r swyddogion yn gyfrifol am orfodaeth yn erbyn amrywiaeth o droseddau amgylcheddol gan gynnwys taflu sbwriel, baw cŵn, tipio anghyfreithlon, ysmygu mewn man caeedig a graffiti. Baw ci yw'r ffynhonnell fwyaf cyson o gwynion a sbwriel yw ffynhonnell y nifer fwyaf o Rybuddion Cosb Benodedig (RhCB) a roddir.

4.4 Caiff y Swyddogion eu hanfon i lefydd trwy ddefnyddio dull sy'n cael ei gyfarwyddo gan gudd-wybodaeth. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu hanfon yn rheolaidd i ardaloedd lle ceir y lefelau uchaf o gwynion, neu lle mae'r lefel uchaf o droseddu wedi cael ei nodi. Ceir gwybodaeth oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd, Aelodau, Gwasanaethau Amgylcheddol, Heddlu Gogledd Cymru, ac ati. Yn dilyn

adolygiad blynyddol o’r contract ac yn dilyn sylwadau ac adborth gan Aelodau rydym hefyd yn cyfeirio swyddogion i'r holl bentrefi ar draws y Sir ar sail ragweithiol i ymgymryd â phatrolau, gan ddarparu ataliaeth weladwy iawn a hefyd siarad â'r gymuned am unrhyw feysydd sy'n peri pryder neu fannau problemus posibl. Rydym hefyd yn cysylltu ag Aelodau yn uniongyrchol i ofyn am wybodaeth am fannau problemus o ran cŵn yn baeddu yn eu wardiau. Darperir bagiau baw ci am ddim i berchnogion cŵn a darperir cyngor yn ôl yr angen.

4.5 Anfonir briffiadau i’r holl Aelodau a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned bob chwarter. Mae hyn er mwyn diweddaru’r holl Aelodau ar ble mae swyddogion wedi bod a sawl RhCB sydd wedi cael ei roi. Mae'r papur briffio diweddaraf i’r Aelodau ynghlwm fel Atodiad 1.

4.6 Mae ymgyrchoedd arbennig wedi eu cynnal hefyd yn ystod y flwyddyn i daclo ardaloedd problematig o ran baw cŵn. Mae'r rhain wedi cynnwys ymgyrchoedd cynnar yn y bore ac ar benwythnosau yn y Marine Lake (Y Rhyl), East Parade (Y Rhyl), Llangollen, Cae Ddol (Rhuthun) a Brickfield Ponds (Y Rhyl). Mae TCC wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi’r ymgyrchoedd hyn.

4.7 Hefyd cynhaliwyd digwyddiad addysgol am wythnos yn ystod misoedd yr haf ar Stryd Fawr Y Rhyl, lle'r oedd Swyddogion yn darparu taflenni cyngor; bagiau baw ci am ddim i'r cyhoeddus ac ati. Yn ystod yr wythnos hon rhoddwyd rhybuddion i'r cyhoedd a oedd yn gollwng sbwriel yn hytrach na chyflwyno RhCB. Roedd hon yn wythnos lwyddiannus iawn a chafwyd sylwadau cadarnhaol oddi wrth gyhoedd a busnesau'r Rhyl.

4.8 Rydym hefyd wedi lansio cynllun 'biniwch i ennill' yn ddiweddar iawn mewn partneriaeth â Kingdom Security i ddarparu cymhelliant pellach i'r cyhoedd i gael gwared ar eu sbwriel a baw ci mewn modd cyfrifol.

4.9 <u>Rhybuddion Cosb Benodedig (RhCB)</u>

4.10 Os caiff trosedd amgylcheddol ei chyflawni, yna bydd y Swyddog yn cyflwyno RhCB yn erbyn y troseddwr. Mae swyddogion hefyd yn defnyddio eu doethineb os yw'r person o dan sylw yn hynod ddiamddiffyn neu os oes amgylchiadau eithriadol. Ceir sawl enghraifft o hyn a chyflwynwyd cyfanswm o 66 rhybudd ers mis Rhagfyr 2013. Gellir gweld cyfanswm y patrolau a wnaed ar draws y sir a nifer y rhybuddion a roddwyd yn Atodiad 2.

4.11 Os yw RhCB yn cael ei gyflwyno, yna mae'n rhaid i'r troseddwr yn ôl y gyfraith dalu swm o £75 o fewn 28 diwrnod ar gyfer y rhan fwyaf o droseddau. Os bydd y troseddwr yn talu'r £75, yna bydd y mater wedi’i gau ac ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd. Am bob RhCB £75 a delir, mae Kingdom Security Ltd yn derbyn £45 ac mae'r Cyngor yn cael £30. Gellir gweld cyfanswm y RhCB a gyflwynwyd, y math o drosedd ac ardal y drosedd yn Atodiad 3. Mae'n amlwg mai sbwriel sy’n gysylltiedig ag ysmygu sy’n parhau i fod y drosedd fwyaf cyffredin a'r un y cyflwynir y mwyaf o RhCB yn eu cylch.

4.12 Os na chaiff ei dalu yn y 28 diwrnod, caiff dau lythyr atgoffa eu hanfon at y troseddwr i dalu eu RhCB. Os nad ydym byth wedi cael taliad, yna bydd swyddogion o Kingdom yn llunio ffeil erlyniaeth i fynd â’r troseddwr i'r Llys. Caiff y ffeil hon ei hadolygu gan Reolwyr CSDd ac os byddwn yn cytuno, bydd y ffeil yn cael ei chyflwyno i'r Gwasanaethau Cyfreithiol i symud ymlaen. Rydym wedi erlyn dros 200 o droseddwyr ers mis Hydref 2012. Os bydd yn llwyddiannus, bydd y Llys yn rhoi dirwy i'r troseddwr ac yn y rhan fwyaf o achosion yn dyfarnu costau. Telir y ddirwy i'r Llywodraeth Ganolog; mae’r Cyngor yn derbyn dyfarniad y Llys o’r costau. Caiff y dyfarniad hwn o gostau ei 'rannu' rhwng y Gwasanaeth hwn a’r Gwasanaethau Cyfreithiol.

4.13 <u>Gwybodaeth Ariannol</u>

4.14 Y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd a chydweithwyr yn yr adran gyllid sy’n monitro'r gwariant ac incwm yn rheolaidd. Mae’r gwir incwm o gyflwyno'r RhCB hyd yma yn cyfateb i wir gost Kingdom Security Ltd. Gellir dadansoddi hyn fel a ganlyn:

2012/13 Incwm a dderbyniwyd 77,480, Gwariant i Kingdom 79,068
2013/14 (hyd yma) Incwm a dderbyniwyd 107,199, Gwariant i Kingdom 104,860

4.15 Yn syml, mae hyn yn golygu bod cyflwyno dros 4000 o RhCB i daclo troseddau amgylcheddol wedi bod yn niwtral o ran cost i'r Cyngor.

4.16 Fodd bynnag, mae swm sylweddol o incwm eto i’w gasglu oddi wrth y rhai nad ydynt eto wedi talu eu RhCB neu heb dalu'r costau a ddyfarnwyd gan y Llys.

4.17 Amcangyfrifir bod yr incwm heb ei gasglu tua £140k sydd i'w ddisgwyl o ystyried y bwlch amser rhwng cyflwyno’r RhCB a’r taliad i Kingdom a'r taliad gwirioneddol i'r Cyngor o'r ddirwy RhCB neu gostau Llys. Rhagwelir y bydd unrhyw arian dros ben ar ôl ei dderbyn yn cael ei ddefnyddio i gyflogi Swyddog Gorfodaeth Amgylcheddol dros dro ychwanegol gan Gyngor Sir Ddinbych, a fydd yn delio â materion baw cŵn fel blaenoriaeth, yn ogystal â throseddau amgylcheddol eraill fel bo’r angen.

4.18 Yn dilyn adolygiad o'r cytundeb presennol gyda Kingdom, cytunwyd ar newidiadau am y cyfnod 12 mis nesaf. Mae hyn yn cynnwys cyfradd is o £40 fesul RhCB i Kingdom am y cyfnod rhwng 1 Mehefin i 30 Medi ac eithrio RhCB am Faw Cŵn lle byddant yn cael taliad uwch o £75.

4.19 Mae newidiadau pellach yn cynnwys cosb ariannol ar Kingdom os nad ydynt yn cyflwyno achosion erlyn a gwblhawyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol a chosb am bob achlysur nad yw swyddogion mewn lifrai lle cytunwyd y dylent eu gwisgo neu os nad ydynt wedi bod mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn. Ni fydd pob patrol mewn lifrai, yn enwedig patrolau baw cŵn, ond bydd hyn yn cael ei gytuno ymlaen llaw gyda Rheolwyr CSDd.

4.20 Mae cyfradd taliad cynnar gostyngol ar gyfer troseddwyr sy'n cael RhCB hefyd wedi cael ei gyflwyno o £50 os ydynt yn talu o fewn 14 diwrnod.

4.21 <u>Cwynion</u>

4.22 Ers mis Hydref 2012, rydym wedi derbyn 36 o gwynion gan y cyhoedd mewn perthynas â Swyddogion Kingdom. Credir bod hyn yn nifer isel o gofio eu bod wedi cyflwyno dros 4000 RhCB yn y cyfnod hwnnw.

4.23 Mae pob cwyn yn cael ei harchwilio'n drwyadl gan Uwch Swyddog y Cyngor sy'n cynnwys gwylio ffilm fideo a gymerwyd o bob digwyddiad. Ni chafodd yr un o'r rhain eu cadarnhau. Mae Rheolwyr CSDd hefyd fel mater o drefn yn gwirio nifer o ffilmiau fideo ar hap i fonitro ymddygiad a phroffesiynoldeb y Swyddogion yn rhagweithiol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r gwaith yn cyfrannu at y Flaenoriaeth Gorfforaethol o strydoedd glân a thaclus. Mae hefyd yn rhan annatod o'r strategaeth gorfforaethol ar faw cŵn.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Fel yr eglurwyd yng nghorff yr adroddiad, mae'r dirwyon a roddwyd gan y Cyngor yn fwy na chost cyflogi Kingdom i orfodi troseddau amgylcheddol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad? Dylai'r templed Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i lenwi gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Nid oes angen asesiad llawn o effaith ar gydraddoldeb yn y cam hwn.

**8. Pa ymgynghori a gwblhawyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae adroddiadau blaenorol wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ac mae adolygiad ffurfiol o'r trefniant eisoes wedi digwydd gyda'r Aelod Arweiniol (y Parth Cyhoeddus). Darperir diweddariadau rheolaidd i'r Aelod Arweiniol (y Parth Cyhoeddus), yr holl Aelodau a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn ystod y flwyddyn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Ar hyn o bryd mae costau Kingdom yn cael eu talu gan y gwir incwm a dderbynnir ac felly nid oes unrhyw faterion cyllidebol. Dylai lefelau incwm wella fel mae'r incwm a dderbynnir o RhCB na thalwyd eto ac erlyniadau'n cynyddu. Mae angen monitro'n ofalus effaith y gyfradd ostyngol o dalu yn gynnar a newidiadau pellach i'r RhCB ar y llif arian.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae risgiau o gyhoeddusrwydd negyddol, ond mae hyn yn cael ei reoli trwy reoli da a chadarn gan Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Adran2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 - pŵer i wneud unrhyw beth sy'n debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal.

11.2 Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 - pŵer i wneud unrhyw beth i hwyluso neu sy'n atodol i gyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r cyngor

11.3 Erthygl 6.3.4(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau Archwilio mewn perthynas ag archwilio perfformiad sy'n ymwneud ag amcanion polisi.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd
Ffôn: 01824 706350